| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **31 o Orffennaf 2012** |
| **TEITL YR EITEM** | **Adolygiad y Gwasanaeth Ieuenctid** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Paul Thomas** |
| | |

**1. Cefndir a Chyd-destun.**

1.1 Sefydlwyd Gweithgor Gwella gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd ar 5 Mehefin 2008 gyda'r nod o:-
"Cynnal adolygiad llawn o Wasanaeth Ieuenctid y Cyngor", gan gynnwys:
- Ymchwilio a dadansoddi gwybodaeth am weithrediad presennol y Gwasanaeth,
- Ymateb i ganfyddiadau adroddiadau Estyn,
- Asesu'r ddarpariaeth gan gyrff eraill yng Ngwynedd ar gyfer ieuenctid,
- Bod yn fyw i arfer da mewn ardaloedd eraill ac mewn cyrff gwahanol,
- Trafod a chanfod arbedion a thoriadau.

1.2 Cyflwynodd y Gweithgor Gwella ei adroddiad ynghyd a 21 o argymhellion ar gyfer y dyfodol i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 17 o Ragfyr 2009.

1.3 Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Craffu a mabwysiadodd y Gwasanaeth Ieuenctid Gynllun Gweithredu 5 Mlynedd.

1.4 Mae'r Cynllun 5 Mlynedd yn gynllun heriol sy'n cyfuno rhaglen o welliannau effeithiolrwydd ynghyd a rhaglen o drawsnewid busnes. Mae'r cynllun wedi cychwyn drwy ganolbwyntio ar sefydlu systemau a phrosesau casglu gwybodaeth; rhesymoli eiddo ac adnoddau cyn symud ymlaen tuag at reoli newid yn strwythur a darpariaeth y gwasanaeth ar sail pum ardal.

1.5 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi bod yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn flynyddol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun 5 Mlynedd. Cafoddf y Cynllun ei adolygu yn sgil yr adborth a roddwyd.

**2. Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd**

2.1 Diffinir Gwaith Ieuenctid fel gwasanaeth sy'n cynnig cyfleoedd addysg bersonol a chymdeithasol i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed

2.2 Mae gan Weithwyr Ieuenctid berthynas unigryw a phobl ifanc ac mae'r prif bwyslais ar adnabod y materion unigol sy'n effeithio ar eu datblygiad personol a chymdeithasol ac ar eu helpu i gyflawni eu potensial.

2.3 Gyrrir Gwaith Ieuenctid gan yr egwyddor wirfoddol sydd yn cydnabod bod gan bobl ifanc yr hawl i ddewis a ydynt am gymryd rhan mewn darpariaeth gwaith ieuenctid. Mae i'r berthynas wirfoddol hon rhwng y person ifanc a'r gwasanaeth hygrededd ac ymddiriedaeth, yn wahanol i'r berthynas a phroffesiynolion eraill yn yr ysgol, y gwaith a'r llysoedd, er enghraifft.

2.4 Dibenion Gwaith Ieuenctid yw:

- Hybu a hyrwyddo cyfleoedd i bob person ifanc fel y gallent gyflawni eu potensial fel unigolion grymus ac fel aelodau o grwpiau a cymumedau
- Cefnogi pobl ifanc trwy newidiadau arwyddocaol yn eu bywydau a'u cynorthwyo i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau
- Annog pobl ifanc i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau meddwl a gwerthoedd sy'n eu galluogi i wneud defnydd adeiladol o'u sgiliau, eu hadnoddau a'u hamser

2.5 Mae Gwaith Ieuenctid yn :

- Hybu cyfleoedd a mynediad i bob person ifanc ni waeth am eu hil, rhyw, hunaniaeth rywiol, iaith, crefydd, anabledd, hoedran, cefndir neu amgylchiadau personol
- Herio gormes ac anghdraddoldeb
- Cydnabod pwysigrwydd a gwerth yr iaith Gymraeg a'r angen i hybu'r defnydd a wneir ohoni
- Cydnabod pwysigrwydd datblygu cynaliadwy
- Cydnabod bod dinasyddiaeth yn cwmpasu cyfrifoldebau a hawliau fel dinasyddion byd eang yn ogystal a rhai lleol a chenedlaethol.

2.6 Mae Gwaith Ieuenctid, trwy ei berthynas wirfoddol a phobl ifanc, yn :-

- Addysgol – Galluogi pobl ifanc i ennill sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau meddwl a gwerthoedd anghenrheidiol i adnabod, hybu a mynnu eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel unigolion ac fel aelodau o grwpiau a cymunedau, ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. Mae'r dysgu yn tarddu o'r modd y mae gweithiwr ieuenctid yn gweld cyfle mewn sefyllfaoedd pob dydd i alluogi pobl ifanc i ddysgu yn anffurfiol. Nid yw achredu yn flaenoriaeth. Mae achredu o'r gwerth mwyaf lle mae'n galluogi pobl ifanc i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r hyn maent wedi ei ddysgu.
- Mynegiannol – annog a galluogi pobl ifanc i fynegi eu teimladau a'u dyheadau trwy gyfleon creadigol, chwaraeon a phrofiadau heriol sy'n codi eu hymwybyddiaeth o'r canlynol:
  - Hunaniaeth ddiwylliannol
  - Dwyieithrwydd a gwerth eu hiaith eu hunain
  - Treftadaeth
  - Parch at amrywiaeth
  - Dinasyddiaeth a pharch tuag at eraill
- Cyfranogol – Lle mae pobl ifanc yn cael eu hannog i rannu cyfrifoldebau ac i ddod yn bartneriaid cydradd, sy'n sylfaenol i'r

prosesau dysgu a'r strwythurau penderfynu sy'n effeithio ar eu bywydau a'u hamgylcheddau eu hunain ac eraill

- Grymusol – gan annog a galluogi pobl ifanc i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel eu bod yn ddinasyddion cyfrifol yn eu cymunedau ac yn gallu ymwneud a'r materion personol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain ac eraill.

2.7 Nid Gwaith Ieuenctid ydyw :

- Pan fo gorfodaeth i fod yn bresennol
- Pan y cynhwysir pobl ifanc tu hwnt i oed 11-25
- Pan y cynhelir yr un gweithgaredd yn cael ei hail adrodd blwyddyn ar ol blwyddyn
- Os mai'r prif amcan yw atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Pan fo'n addysg ffurfiol mewn gwers ddosbarth
- Pan fo'n glwb chwaraeon / clwb snwcer ayyb

3. Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd
Atodir yn Atodiad 1 y Cynllun Gweithredu 5 mlynedd.

3.1 Cyflawniad Blwyddyn Gyntaf 2009-10 (Blwyddyn ysgol)

- Mabwysiadu Nod ac Amcanion Newydd i'r Gwasanaeth
- Sefydlu Cytundebau Lefel gwasanaeth gyda'r Urdd a Ffermwyr Ifanc.
- Cydlynu Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid yn y sir drwy gynnig Pecyn Hyfforddiant 'Gwaith Ieuenctid' i'r trydydd sector.
- Cynnal cwrs Aelodau Hyn Lefel 1 Agored Cymru
- Cynnig achrediadau Agored Cymru
- Penodi Gweithiwr Achrediadau
- Sefydlu a cynnig Gwabor Dug Caeredin
- Seydlu a cynnig gwobr John Muir
- Cynnig gwasanaeth Gweithiwr Ieuenctid mewn Ysgol mewn 3 dalgylch.
- Targedu ardaloedd o Angen Marchog, De Pwllheli, Peblig a Blaenau Ffestiniog.
- Targedu Grant i benodi Gweithiwr Bws Ieuenctid
- Mabwysiadu System Casglu Gwybodaeth QES

Effaith Cyflawniad y Flwyddyn Gyntaf ar Bobl Ifanc Gwynedd:-

- 16 aelod hyn wedi ennill achrediad Agored Cymru Lefel 1
- 146 o achrediadau wedi eu cwblhau yn Nalgylch Bangor
- 15 achrediad wedi eu cwblhau yn Nalgylch Dwyfor
- 8 person Ifanc wedi cwblhau ac ennill Gwbor Dug Caeredin Lefel Efydd
- 5 person ifanc wedi cwblhau ac ennil Gwobr John Muir
- 10 o bobl ifanc NEET yn cael eu cefnogi mewn sesiynau ymgysylltu wythnosol
- Gwasanaeth Symudol y Bws wedi ymweld gyda 17 o gymunedau

3.2 Cyflawniad Ail Flwyddyn 2010-11(Blwyddyn ysgol)

- Gweithwyr Ieuenctid y Gwasanaeth yn cymhwyso mewn Cardiau Awyr Agored
- Ymestyn y ddarpariaeth achrediadau i rannau newydd o'r Sir
- Targedu adnoddau Ewropeaidd i ehangu'r rhwydwiath Gweithwyr Ieuenctid mewn Ysgolion.
- Ymestyn y ddarpariaeth i dargedu mwy o ardaloedd mewn angen sef Talysarn ac Abermaw.
- Cynnal cyrsiau Gwbor Dug caeredin i weithwiyr ieuenctid ac athrawon uwchradd.
- Trafodaethau ar gyfer trosglwyddo a gwaredu adeiladau gweigion yn parhau yn benodol ar gyfer Dinorwig a Llanllechid.
- Cryfhau trefniadau ymgynghori gyda pobl ifanc.
- Gosod targed i bob clwb ieuemnctid sefyldu fforwm a/neu bwyllgor aelodau er mwyn cynnwys pobl ifanc i reoli a dylanwadu ar eu clwb.

Effaith Cyflawniad yr Ail Flwyddyn ar Bobl Ifanc Gwynedd:-

- Pobl Ifanc Gwynedd yn cael profiadau newydd ee cymryd rhan yng ngystadleuaeth Brwydr y Bandiau BBC Radio Cymru sefyldu clybiau garddio, clybiau dawnsio, cluybiau awyr agored.
- Pobl Ifanc Gwynedd sydd mewn peryg o ddadrithio gyda cysylltiad i ddysgu anffurfiol drwy'r rhwdwaith o 5 Gweithiwr Ieuenctid Mewn Ysgolion.
- Pobl Ifanc Gwynedd yn cael cyfleoedd i ennill cymhwysterau.
- 86% o aelodau hyn (13 mewn nifer) wedi cwblhau Cwrs Aelod Hyn Lefel 1
- 80% o aelodau hyn (8 mewn nifer) wedi cwblhau Cwrs Gwaith Ieuenctid Lefel 2
- 16 o bobl ifanc Deiniolen ac 11 o bobl ifanc Pwllheli wedi cwblhau achr4diad NICAS Lefel 1 mewn Dringo
- 4 o bobl ifanc Tywyn wedi cwblhau achrediad Lefel 1 Agored Cymru mewn Ysgrifennu Cerddoriaeth,
- 17 o bobl ifanc Bangor wedi cwblhau ac ennil Gwobr John Muir
- 5 o bobl ifanc Abermaw wedi cwblhau ac ennill Gwobr John Muir
- 9 o bobl ifanc Tywyn wedi cwblhau ac ennill Gwobr John Muir
- 48 o bobl ifanc wedi cwblhau Gwobr Dug Caeredin
- 6 Clwb wedi ymestyn eu horiau agor am 7 wythnos ychwanegol
- 5 Clwb Ieuenctid a 2 Brosiect Ysgol wedi derbyn Tystysgirf Clywed – gwrando ar lais pobl ifanc.
- 9 o bobl ifanc NEET yn cael eu cefnogi ym Maesgeirchen.
- 144 o achrediadau Agored Cymru wedi eu cwblhau yn nalgylch Bangor, 47 ym Mhwllheli a 12 yn Nhywyn.
- System Casglu Gwybodaeth QES yn dal manylion 1307 o bobl ifanc.

3.3 Mae’r Cynllun bellach yn ei drydedd flwyddyn weithredol 2011-12 (blwyddyn ysgol). Cynhwysir yn atodiad 2 adroddiad cynnydd ar gyflawniad y drydedd flwyddyn hyd yn hyn.

4 Edrych i’r Dyfodol.
4.1 Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid newydd fod yn rhan o Arolwg ffug Estyn (Gorffennaf 2012). Bydd y Gwasanaeth yn defnyddio adborth yr arolwg hwnnw i adolygu’r Cynllun Gweithredu i’r flwyddyn sydd i ddod.

4.2 Bydd y Gwasanaeth yn adlygu’r Cynllun Gweithredu yn ystod ei hunan-asesiad ym mis Medi 2012. Byddwn yn defnyddio adborth y Pwyllgor hwn yn rhan o’r hunan-asesiad hwnnw.